**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**
**Minister for Finance and Leader of the House**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/JG/0069/12

Rosemary Butler AM
Presiding Officer
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

11 Ionawr 2012

Annwyl Rosemary

**Y Rheoliadau Lwfansau Tirlenwi (Cymru) (Diwygio) 2012**

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu y bu'n rhaid torri'r rheol 21 niwrnod mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Gwnaed y Rheoliadau ar 10 Ionawr 2012, eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Ionawr 2012 a daethant i rym ar 15 Ionawr 2012.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r derminoleg a ddefnyddir yn Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 er mwyn alinio â'r derminoleg newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar i Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu dwy set flaenorol o reoliadau a luniwyd i gyflawni'r un canlyniad a dadwneud y rheoliadau y ceisiodd y rheoliadau blaenorol hynny eu cyflwyno. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003.

Ym mis Tachwedd y llynedd diwygiwyd y Ddeddf i gyflwyno terminoleg i wahaniaethu rhwng dau gategori gwastraff trefol: gwastraff trefol pydradwy a waredir gan y sector cyhoeddus yn unig a'r holl wastraff trefol pydradwy, p'un a yw'r sector cyhoeddus neu'r sector preifat yn ei waredu.

Mae Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 yn amlinellu manylion gweithredu'r cynllun lwfansau tirlenwi yng Nghymru. Sefydlwyd y Cynllun hwnnw o dan y Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau ac mae'n rheoleiddio faint o wastraff trefol pydradwy y gall awdurdodau lleol eu hanfon i safleoedd tirlenwi. Oherwydd bod y derminoleg a ddefnyddir yn y Ddeddf i ddisgrifio'r gwastraff sydd o dan y cynllun lwfansau tirlenwi wedi newid, mae angen trosglwyddo'r newidiadau hynny i Reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004. Os na fydd hyn yn digwydd, bydd y Ddeddf a'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Rheoliadau yn defnyddio termau gwahanol am yr un peth. Gallai hynny achosi amwysedd cyfreithiol ac ni fyddai o fudd i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth.

Er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondeb, gwnaed Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) (Diwygio) 2011 ("y Rheoliadau cyntaf") a daethant i rym ar 21 Tachwedd 2011 (ar yr un diwrnod ag y daeth y newidiadau i'r Ddeddf i rym). Nododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol nad enwyd un o'r pwerau y dibynnwyd arnynt i wneud y Rheoliadau hynny yn y rhaglith. Derbyniodd y Llywodraeth fod potensial i hynny achosi amwysedd ynghylch a oedd un gwelliant penodol wedi'i wneud i Reoliadau 2004 ac addawodd i wneud y gwelliant hwnnw o fewn chwe wythnos.

Cafodd y Rheoliadau cyntaf eu dirymu a'u hail-wneud yn Rheoliadau Lwfansau Tirlenwi (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2011 ("yr ail Reoliadau") er mwyn cynnwys yr holl welliannau mewn un offeryn statudol yn hytrach na mewn dau. Roedd disgwyl i'r ail Reoliadau ddod i rym ar 16 Ionawr 2012.

Dylai'r ail Reoliadau fod wedi dadwneud y gwelliannau a wnaed gan y Rheoliadau cyntaf cyn ceisio gwneud y gwelliannau hynny eto. Roedd y ffaith iddyn nhw beidio â gwneud hynny yn golygu bod potensial am ansicrwydd ynghylch union effaith yr ail Reoliadau mewn rhai achosion ac am ddarpariaethau penodol yn Rheoliadau 2004 yr oeddent yn mynd i effeithio arnynt.

Mae Rheoliadau 2012 yn dadwneud y gwelliannau i Reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004, yn dirymu'r ddau set o reoliadau blaenorol ac yn gwneud y gwelliannau i Reoliadau 2004 o'r newydd.

Daeth yr hepgoriad i'r amlwg ar ôl gwneud yr ail Reoliadau, felly nid oedd modd unioni'r sefyllfa heblaw am drwy ddiwygio'r ail Reoliadau cyn iddynt ddod i rym neu drwy eu dirymu a'u hail-wneud. Er y byddai'n bosibl dirymu ac ail-wneud yr ail Reoliadau ar ôl iddynt ddod i rym, ac thrwy hynny gydymffurfio â'r rheol 21 niwrnod, byddai gwneud hynny wedi arwain at gyfnod lle'r oedd union effaith y gyfraith yn aneglur.

Daeth y Llywodraeth i'r casgliad mai'r canlyniad gorau i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth fyddai osgoi ansicrwydd yn llwyr. Torri'r rheoli 21 niwrnod oedd yr unig ffordd o wneud hynny.

Cafodd y Rheoliadau eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Ionawr 2012.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ac at Steven George, Clerc y Pwyllgor.

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House